



## Addysg Bellach

Cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo athrawon mewn addysg bellach i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr mewn cyd destun galwedigaethol

- A yw pob un o'r dysgwr yn ymgymryd ag asesiad diagnostig cychwynnol a manwl o'u medrau rhifedd ac yn deall eu canlyniadau?
- A yw deilliannau asesiadau diagnostig yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gytuno ar gynllun datblygu medrau rhifedd unigol, wedi'i dargedu'n ofalus i bob dysgwr?
- A yw cynnydd unigol yn erbyn targedau gwella medrau rhifedd yn cael ei adolygu a'i werthuso'n gyfnodol?
- A yw'r holl staff addysgu yn ymwybodol o fedrau rhifedd cyfredol dysgwyr unigol a'u meysydd targedig i'w datblygu?
- A oes cymorth ar gael i ddysgwyr yn unigol neu mewn grwpiau bach i gynorthwyo i ddatblygu eu medrau rhifedd?
- A yw staff addysgu wedi ymgymryd â gweithgareddau datblygu proffesiynol priodol i sicrhau bod ganddynt y medrau angenrheidiol i gynorthwyo a datblygu medrau rhifedd dysgwyr?
- A yw athrawon yn cael eu hannog i rannu adnoddau ac enghreifftiau o arfer effeithiol mewn datblygu medrau rhifedd dysgwyr?
- A yw gweithgareddau a deunyddiau dysgu cyd-destunol yn cael eu defnyddio, lle bynnag y bo hynny'n bosibl?
- A yw pob dysgwr yn deall pwysigrwydd a budd bod â medrau rhifedd cadarn mewn cyd-destun galwedigaethol ac i'w defnyddio mewn bywyd bob dydd?
- Pa mor dda mae athrawon mewn meysydd galwedigaethol yn helpu dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer eu medrau rhifedd yng nghyd destun galwedigaethol eu rhaglen ddysgu? Er enghraifft:
  - deall a defnyddio unedau mesur gwahanol
  - gwneud cyfrifiadau, gan gynnwys adio, tynnu, rhannu, lluosu, canrannau, ffracsiynau, rhifau positif a negatif, lle bo hynny'n briodol
  - defnyddio a dehongli tablau, graffiau, siartiau a diagramau
  - gwneud mesuriadau fel hyd, pellter, uchder a phwysau
  - cyfrifo gofynion o ran deunyddiau, fel mewn perthynas ag arwynebedd, dimensiynau a chyfeintiau
  - defnyddio cymarebau i gymysgu cynhwysion a'u graddio i fyny/i lawr, yn ôl y gofyn
  - defnyddio mesuriadau amser, fel wrth gyfrifo'r amser sydd ei angen ar gyfer gwaith, trefnu apwyntiadau neu wrth fwydo/rhoi meddyginiaeth
  - defnyddio gwerthoedd a chyfrifiadau ariannol, fel wrth ymgymryd â thrafodion, cymhwysu gostyngiadau, bilio neu gyllidebu